



Dyddiad a Crëwyd: 11/05/2018  
Dyddiad y  
Cyhoeddwyd: 14/05/2018  
Rhif y Fersiwn: 1.00

---

At ddibenion Diogelu Data, mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn endid cyfreithiol ar wahân i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

<b>Maes Gwasanaeth:</b>	Diogelwch y Cyhoedd
<b>Maes Gwaith:</b>	Y Gwasanaeth Cofrestru
<b>Manylion cyswllt:</b>	01443 863478 cofrestrydd@caerffili.gov.uk
<b>Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau, Priodasau a Phartneriaethau Sifil
<b>Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Mae'r polisi hwn yn egluro'r modd y mae'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi yn cael ei defnyddio, ac yn esbonio eich hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth honno

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth?

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r modd y mae'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi yn cael ei defnyddio, ac yn esbonio eich hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth honno. Ein nod yw peidio â bod yn ymwithiol, ac ni fyddwn yn gofyn cwestiynau amherthnasol na diangen. Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn destun mesurau a gweithdrefnau llym, er mwyn sicrhau na ellir ei gweld na chael mynediad ati, ac na fydd yn cael ei datgelu i neb na ddylai ei gweld.

Mae gwybodaeth bersonol a gesglir gennych i gofrestru digwyddiad yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Y brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gwaith o gasglu gwybodaeth gofrestru yw:

- Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953
- Deddf Priodasau 1949
- Deddf Partneriaeth Sifil 2004.

Efallai y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch, o ganlyniad i'r deddfau hyn a darnau eraill o ddeddfwriaethau, i gyflwyno darnau penodol o wybodaeth. Os na fyddwch yn llwyddo i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol, efallai y byddwch, ymysg pethau eraill, yn atebol i ddirwy; neu, ni fyddwn yn gallu darparu'r gwasanaeth yr ydych yn ymgeisio amdano, er enghraifft priodas neu bartneriaeth sifil.

Gellir hefyd casglu gwybodaeth bersonol gennych os byddwch yn cyflwyno cais i'r swyddfa hon, er enghraifft cais am dystysgrif neu gais i gywiro gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys ar gofrestr.

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn cael ei chadw a'i phrosesu gan y swyddogion cofrestru ar gyfer yr ardal gofrestru honno.

Bydd copi o unrhyw gofnod cofrestr a gedwir gan y swyddfa hon yn cael ei ddarparu gan y swyddfa, yn unol â'r gyfraith, i unrhyw ymgeisydd, a hynny ar yr amod ei fod yn cyflenwi digon o wybodaeth i nodi'r cofnod dan sylw, ac yn talu'r ffi briodol.

Dim ond ar ffurf copi papur wedi'i ardystio ("tystysgrif") y gellir cyhoeddi'r copi.

Gellir hefyd wneud cais am dystysgrif i'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

Mae mynegeion y digwyddiadau sydd wedi cael eu cofrestru yn y swyddfa hon ar gael i'r cyhoedd, a hynny er mwyn helpu aelodau'r cyhoedd i nodi'r cofnod cofrestru y gallai fod arnynt ei angen. Mae mynegeion ar gael ar ffurf electronig a chopi caled. Mae'r mynegai ar gyfer cofnodion hanesyddol ar gael i'w chwilio ar-lein.

Bydd copi o'r wybodaeth a gesglir gan swyddog cofrestru hefyd yn cael ei anfon at y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr, er mwyn sicrhau y gellir cynnal cofnod canolog o'r holl gofrestriadau.

Efallai y bydd gwybodaeth gofrestru, a gedwir gan y swyddfa hon, yn cael ei rhannu â sefydliadau eraill wrth i ni fynd ati i gyflawni ein swyddogaethau, neu er mwyn galluogi pobl eraill i gyflawni eu swyddogaethau nhw.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth yn unig pan fo sail gyfreithiol i wneud hynny, ac am y rhesymau canlynol:

1. Dibenion ystadegol neu ymchwil
2. Dibenion gweinyddol gan gyrrff swyddogol, e.e. sicrhau bod eu cofnodion wedi cael eu diweddarau, er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd
3. Dibenion mewnfudo, pasbort ac atal neu ganfod twyll

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth isod, yn Atodiad A, am y data a gedwir gan y gwasanaeth cofrestru, y rhestr lawn o sefydliadau y rhennir y data cofrestru â nhw, ynghyd â'r diben a'r sail gyfreithlon ar gyfer rhannu'r data. Fel arall, bydd staff y swyddfa hon yn gallu darparu'r wybodaeth honno.

## **Galwadau Ffôn**

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os byddwn yn recordio neu'n monitro unrhyw alwadau ffôn y byddwch yn eu cynnal â ni. Gall galwadau sy'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Ganolfan Gyswilt, neu'n uniongyrchol ohoni, gael eu recordio a'u cadw am o leiaf flwyddyn a hyd at ddwy flynedd o ddyddiad yr alwad. Os bydd yr alwad yn cael ei throsglwyddo i aelod o staff yn y Swyddfa Gofrestru, bydd y recordiad yn dod i ben. Gall galwadau sy'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i dimau gwasanaeth eraill, ar rifau amgen, gael eu recordio

## **Manylion ariannol**

Nid ydym yn cofnodi manylion unrhyw gardiau ariannol os byddwch yn talu dros y ffôn. Byddwn yn cadw copi o dderbynneb y masnachwr am saith mis ar ôl i'r taliad gael ei wneud.

## **Negeseuon e-bost**

Os byddwch yn anfon negeseuon e-byst atom, efallai y byddwn yn cadw cofnod o'ch cysylltiad, eich cyfeiriad e-bost a'r neges e-bost at ddibenion cadw cofnod o'r trafodyn. Am resymau diogelwch, ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol amdanoch mewn unrhyw neges e-bost y byddwn yn ei hanfon atoch, oni bai eich bod yn cydsynio i hynny.

Rydym yn awgrymu y dylech nodi cyn lleied o wybodaeth gyfrinachol â phosibl yn y neges e-bost y byddwch yn ei hanfon atom, ac yn defnyddio ein ffurflenni a'n gwasanaethau ar-lein diogel.

## **Gwasanaethau eraill**

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaethau anstatudol, fel a ganlyn:

- Seremonïau Enwi
- Seremonïau Ailddatgan Addunedau
- Gwasanaeth Dychwelyd Pasbort Ewropeaidd

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar gyfer y gwasanaethau hyn yn destun i'r un mesurau a gweithdrefnau llym â'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu trwy'r gwasanaeth cofrestru, er mwyn sicrhau na ellir ei gweld na chael mynediad ati, ac na fydd yn cael ei datgelu i neb na ddylai ei gweld.

Rydym yn defnyddio enwau a manylion cyswllt i drefnu apwyntiadau ar gyfer y gwasanaethau hyn. Ar gyfer seremonïau Enwi ac Ailddatgan, rydym yn cadw cofnod o'r achlysur, gan gynnwys enwau a dyddiad a lleoliad y digwyddiad.

Dim ond at ddibenion archwilio y cedwir yr wybodaeth hon, ac ni chaiff data na gwybodaeth eu rhannu.

Ar gyfer y Gwasanaeth Dychwelyd Pasbort Ewropeaidd, rydym yn defnyddio enwau a manylion cyswllt ar gyfer yr apwyntiad.

Bydd y cwsmer wedi llenwi ffurflen ar-lein, a ragnodwyd gan y Swyddfa Gartref. Yn syml, rydym yn gwirio ac yn anfon dogfennau ategol a ddarperir gan y cwsmer, gan gynnwys llungopïo ac ardystio'r pasbort, cyn ei roi yn ôl i'r cwsmer.

Yna, rydym yn anfon yr holl fanylion sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth i'r Swyddfa Gartref.

Ni yw'r gwasanaeth cofrestru na'r awdurdod lleol yn cadw unrhyw ddata neu wybodaeth.

## **System electronig i drefnu apwyntiadau a seremonïau**

Rydym yn defnyddio system archebu ar-lein i drefnu apwyntiadau ar gyfer cofnodi Genedigaethau, Marwolaethau, Priodasau a Dinasyddiaeth, ynghyd ag archebu seremonïau priodas, partneriaeth sifil, enwi ac ailddatgan, yn ogystal â'i defnyddio ar gyfer y Gwasanaeth Dychwelyd Pasbort Ewropeaidd.

Cedwir y data er mwyn cyflawni'r apwyntiad hwnnw. Mae'r gwaith o archebu apwyntiadau a seremonïau yn cael ei wneud o flaen llaw, ac mae'n cael ei gwblhau wedi i'r archeb gael ei chyflawni. Ar ôl hynny, bydd y data'n cael eu defnyddio'n unig at ddibenion ystadegol ac i gyfeirio'n ôl atynt, os bydd angen.

Mae hanfod y gwaith prosesu'n cynnwys casglu'r data trwy ffurflenni ar-lein a lenwir gan gwsmeriaid (aelodau'r cyhoedd), ffurflenni a lenwir gan weithredwyr canolfannau galwadau ar ran y cwsmer, ac o dan ei gyfarwyddyd, neu ffurflenni a lenwir gan aelod o staff y gwasanaeth cofrestru o dan gyfarwyddyd y cwsmer.

Diben y gwaith prosesu yw galluogi'r gwasanaeth i drefnu'r apwyntiad neu'r seremoni briodol.

Mae'r math o ddata y gallem eu prosesu yn y system yn cynnwys:

- Enwau,
- Dyddiadau geni,
- Dyddiadau marwolaeth,
- Dyddiadau seremonïau,
- Cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn,
- Statws Priodasol,
- Anableddau,
- Cenedligrwydd,
- Enwau'r hysbysydd

Aelodau'r cyhoedd yw gwrthrychau'r data.

Bydd y data'n cael eu harchifo a'u dileu, yn unol â Pholisi Cadw'r Gwasanaeth Cofrestru.

## **Arddangosiadau Electronig o Hysbysiadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil**

Rydym yn arddangos hysbysiadau priodasau a phartneriaethau sifil ar ffurf ddigidol.

Cedwir y data am hyd cyfnod yr hysbysiad. Ar hyn o bryd, mae hynny'n 28 diwrnod ar gyfer priodasau neu bartneriaethau sifil.

Mae hanfod y gwaith prosesu yn cynnwys casglu'r data trwy hysbysiad o apwyntiadau priodasau a phartneriaethau sifil. Diben y gwaith prosesu yw galluogi'r gwasanaeth i arddangos yr hysbysiadau, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae'r math o ddata y gallem eu prosesu yn y system yn cynnwys:

Enwau

Dyddiadau geni

Dyddiad y seremoni (ni fydd yn cael ei arddangos yn gyhoeddus)

Rhyw

Statws Priodasol

Galwedigaeth

Man preswyllo (ni fydd yn cael ei harddangos yn gyhoeddus mewn hysbysiad partneriaeth sifil)

Y cyfnod preswyllo yn y rhanbarth

Lleoliad y seremoni

Cenedligrwydd

Y partïon a fydd yn priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil yw gwrthrychau'r data.

Bydd y data'n cael eu harchifo a'u dileu, yn unol â Pholisi Cadw'r Gwasanaeth Cofrestru.

## **Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)**

Mae eich hawliau'n cynnwys yr hawl i ofyn am fynediad at yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch, yr hawl i gael gwybod am y gwaith o gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol, yr hawl i gywiro gwybodaeth sy'n anghywir (lle bo'r gyfraith yn caniatáu i hynny ddigwydd), a'r hawl i ofyn i ni gyfyngu ar y gwaith o brosesu eich gwybodaeth bersonol. Mewn rhai amgylchiadau penodol, mae gennych yr hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu eich gwybodaeth bersonol. Ni fydd eich gwybodaeth yn destun i brosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y gwaith o gasglu, defnyddio neu ddatgelu eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Cofrestrydd Arolygol.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Gwasanaeth Cofrestru Caerffili wedi ymdrin â'ch cais neu eich gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

[www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints](http://www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints)

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gellir dod o hyd i fanylion am y modd y gallwch wneud hyn yma:

<https://ico.org.uk/>

## **Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

### **Manylion y cyfnodau cadw**

Ni fyddwn yn cadw eich gwybodaeth am gyfnod hwy na'r hyn sy'n ofynnol, nac yn hwy na'r hyn y mae'r gyfraith yn ei nodi o ran pa mor hir y dylid ei chadw. Byddwn yn gwaredu cofnodion papur neu'n dileu unrhyw wybodaeth electronig bersonol mewn modd diogel, yn unol â'r Polisi Cadw diffiniedig. Mae'r cyfnod y mae Gwasanaeth Cofrestru Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau.

- Mae gwybodaeth gofrestru yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- Mae gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn ceisiadau tystysgrif yn cael ei chadw am ddwy flynedd
- Mae gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn hysbysiadau priodas, neu hysbysiadau partneriaeth sifil, yn cael ei chadw am bum mlynedd
- Mae manylion personol a gofnodir mewn amserlenni apwyntiadau cyffredinol yn cael eu dileu flwyddyn ar ôl yr apwyntiad
- Mae manylion personol a gofnodir at ddibenion archebu seremonïau yn cael eu dileu flwyddyn ar ôl i'r seremoni gael ei chynnal, neu flwyddyn ar ôl dyddiad disgwylidig y seremoni.

### **Hunaniaeth y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Mae'r Cofrestrydd Arolygol yn rheolwr data ar gyfer cofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau, ac mae'r awdurdod lleol yn rheolwr data ar gyfer cofrestru partneriaethau sifil.

Cysylltwch â Della Leigh Mahony, Cofrestrydd Arolygol, Y Swyddfa Gofrestru, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach CF82 7PG.

Rhif Ffôn: 01443 863478

[mahond@caerffili.gov.uk](mailto:mahond@caerffili.gov.uk) neu [cofrestrydd@caerffili.gov.uk](mailto:cofrestrydd@caerffili.gov.uk)

Mae Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr yn rheolwr data ar y cyd ar gyfer cofrestru genedigaethau, priodasau, marwolaethau a phartneriaethau sifil, a gellir cysylltu ag ef trwy'r cyfeiriad isod:

Y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, Trafalgar Road, Southport, PR8 2HH.

## ATODIAD A

### Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

### Rhestr o weithgareddau prosesu ar gyfer cofrestryddion, cofrestryddion arolygol ac awdurdodau cofrestru

#### 1. Casglu data

DARPARWR Y DATA	DIBEN	GWYBODAETH	GWYBODAETH BERSONOL	Y SAIL STATUDOL	Y SAIL GYFREITHLON (o dan Erthygl 6 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)
*Hysbysydd cymwysedig	Llenwi ffurflen cofrestru genedigaeth (gan gynnwys marw-enedigaeth)	Rhanbarth ac isranbarth cofrestru'r enedigaeth Rhif y cofnod, dyddiad a lleoliad yr enedigaeth Enw a chyfenw Rhyw Enw, cyfenw a galwedigaeth y tad (os oes cofnod) Enw, cyfenw a galwedigaeth y fam Cyfeiriad arferol Enw, cyfenw a chyfeiriad arferol yr hysbysydd (os nad yw'r hysbysydd yn fam neu'n dad i'r plentyn) Dyddiad cofrestru Enw'r cofrestrydd	le	A1 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953  Rheoliad 7 Rheoliadau Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1987	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
*Hysbysydd cymwysedig	Dibenion ystadegol	Oedran y fam  Oedran y tad neu'r rhiant (os yw wedi cael ei gofrestru)  Nifer y plant blaenorol  Dyddiad priodas neu bartneriaeth sifil y rhieni (os yw'n briodol)  Unrhyw briodasau neu bartneriaethau sifil a oedd yn berthnasol i'r fam cyn y dyddiad hwnnw	le, am ei bod yn gysylltiedig â chofrestru genedigaeth	A1 Deddf Ystadegau Poblogaeth 1938	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
*Hysbysydd cymwysedig	Dibenion ystadegol	Statws a diwydiant y gyflogaeth	le, am ei bod yn gysylltiedig â chofrestru genedigaeth	Dim darpariaeth (casglwyd yn wirfoddol)	6 (e) tasg gyhoeddus

					Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
*Hysbysydd cymwysedig	Llenwi ffurflen cofrestru marwolaeth	Rhanbarth ac isranbarth cofrestru'r farwolaeth Rhif y cofnod, dyddiad a lleoliad y farwolaeth Enw, cyfenw ac enw cyn priodi (os yw'n berthnasol) Rhyw Galwedigaeth a chyfeiriad arferol yr ymadawedig Dyddiad a man geni'r ymadawedig Enw, cyfenw a chyfeiriad arferol yr hysbysydd Achos y farwolaeth Dyddiad cofrestru Enw'r cofrestrydd	le, mewn perthynas â manylion yr hysbysydd	A15 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
*Hysbysydd cymwysedig	Dibenion ystadegol	Sefyllfa'r ymadawedig (h.y. yn sengl, yn briod, ac ati.)  Oedran y priod neu'r partner sifil sy'n fyw (os o gwbl)	le, am ei bod yn gysylltiedig â chofrestru marwolaeth, ac yn cynnwys manylion yr hysbysydd	A1 Deddf Ystadegau Poblogaeth 1938	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
*Hysbysydd cymwysedig	Dibenion ystadegol	Hyd yr arhosiad mewn sefydliad cymunedol  Statws a diwydiant cyflogaeth yr ymadawedig	le, am ei bod yn gysylltiedig â chofrestru marwolaeth, ac yn cynnwys manylion yr hysbysydd	Dim darpariaeth (casglwyd yn wirfoddol)	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
Meddyg sy'n ardystio'r farwolaeth trwy gyfrwng Hysbysydd cymwysedig *	Llenwi ffurflen cofrestru marwolaeth a dibenion ystadegol	Enw ac oedran yr ymadawedig  Achos y farwolaeth  Y cyfnod rhwng dechrau'r afiechyd a'r farwolaeth  Lleoliad y farwolaeth, ac, os oedd hynny mewn ysbyty, enw'r ymgynghorydd  Dyddiad y'i gwelwyd yn fyw diwethaf  Manylion ynghylch a gafodd yr ymadawedig ei weld wedi'r farwolaeth ai peidio  Manylion ynghylch a gafodd yr ymadawedig ei gyfeirio at y crwner, a chan bwy	le	A22 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol

		<p>Manylion ynghylch a geisiwyd am fanylion meddygol ychwanegol</p> <p>Llofnod, preswyliaid a chymhwyster y meddyg ardystio</p>			
Y Crwner	Llenwi ffurflen cofrestru marwolaeth	Gwybodaeth ofynnol i lenwi ffurflen cofrestru marwolaeth ac enw'r crwner. Gallai hyn gynnwys manylion yr hysbysydd	le	A23 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953	<p>6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol</p> <p>Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol</p>
Y parti mewn priodas	Hysbysiad priodas	<p>Enw a chyfenw</p> <p>Dyddiad geni</p> <p>Rhyw</p> <p>Sefyllfa</p> <p>Galwedigaeth</p> <p>Cyfeiriad</p> <p>Cyfnod preswyl</p> <p>Lleoliad y briodas</p> <p>Cenedligrwydd</p>	le	<p>A27 Deddf Priodasau 1949</p> <p>Rheoliad 4 Rheoliadau Cofrestru Priodasau 2015</p>	<p>6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol</p> <p>Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol</p>
Y parti mewn priodas	Cofrestru priodas	<p>Rhanbarth y briodas</p> <p>Lleoliad y briodas</p> <p>Rhif y cofnod</p> <p>Dyddiad y briodas</p> <p>Enwau a chyfenwau'r partion mewn priodas</p> <p>Oedran, sefyllfa, safle neu broffesiwn</p> <p>Y man preswylio ar adeg y briodas</p> <p>Enw, sefyllfa a safle neu broffesiwn tad pob parti</p> <p>Llofnodion y ddau barti a'u tystion</p> <p>Enw'r unigolyn/unigolion a gynhaliodd ac a gofrestrodd y briodas</p>	le	<p>A53 Deddf Priodasau 1949</p> <p>Rheoliad 12 Rheoliadau Cofrestru Priodasau 2015</p>	<p>6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol</p> <p>Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol</p>
Y parti mewn partneriaeth sifil	Hysbysiad partneriaeth sifil	<p>Enw a chyfenw</p> <p>Dyddiad geni</p> <p>Rhyw</p> <p>Sefyllfa</p> <p>Galwedigaeth</p>	le	<p>A8 Deddf Partneriaeth Sifil 2004</p> <p>Rheoliad 3 Rheoliadau Partneriaeth Sifil (Darpariaethau Cofrestru) 2005</p>	<p>6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol</p> <p>Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu</p>



		Cyfeiriad  Cyfnod preswyl  Y lleoliad lle ffurfiwyd y bartneriaeth sifil  Cenedligrwydd			data personol yn berthnasol
Y parti mewnartneriaeth sifil	Cofrestr y bartneriaeth sifil	Yr Awdurdod Cofrestru lle cofrestrwyd y bartneriaeth sifil Dyddiad a lleoliad cofrestru'r bartneriaeth sifil Enwau a chyfenwau'r partneriaid sifil Dyddiad geni, rhyw, sefyllfa a galwedigaeth y partneriaid sifil Y man preswyl ar adeg cofrestru'r bartneriaeth sifil Enw, cyfenw a galwedigaeth tad pob partner sifil Enw, cyfenw a galwedigaeth mam pob partner sifil Llofnodion y partneriaid sifil Enwau a chyfenwau'r tystion Llofnod cofrestrydd y bartneriaeth sifil	le	A2 Deddf Partneriaeth Sifil 2004  Rheoliad 11 Rheoliadau Partneriaeth Sifil (Darpariaethau Cofrestru) 2005	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol

## 2. Rhannu gwybodaeth gofrestru

Y Gwasanaethau Cofrestru Sifil					
Y DERBYNNYD D	DIBEN	GWYBODAETH	GWYBODAETH BERSONOL	Y DDARPARIAETH STATUDOL	Y SAIL GYFREITHLON (o dan Erthygl 6 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)
Ymgeisydd am dystysgrif	Cael copi ardystiedig o gofnod genedigaeth, marwolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil	Pan fo ymgeisydd yn gallu nodi'r cofnod perthnasol a thalu'r ffi, gellir rhannu'r holl wybodaeth a gynhwysir ar gofnod genedigaeth, marwolaeth neu briodas; enw, cyfenw a dyddiad geni ar gyfer tystysgrif fer; manylion llawn cofnod partneriaeth sifil, lle gall ymgeisydd ddarparu cyfeiriad y partneriaid sifil; yr holl wybodaeth, ac eithrio cyfeiriad y partneriaid sifil, pan na all ymgeisydd ei ddarparu.	le	A31 ac A33 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953  A64 o'r Ddeddf Priodasau  Rheoliad 15 Rheoliadau Partneriaeth Sifil (Darpariaethau Cofrestru) 2005	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Cofrestrydd Arolygol	Ardystio cofnodion cofrestru	Ffurflenni chwarterol o ran cofrestru genedigaethau (gan gynnwys marw-enedigaethau)	le	A26 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol

		a marwolaethau gan gofrestryddion			Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Ardystio cofnodion cofrestru	Ffurflenni chwarterol o ran cofrestru priodasau gan unrhyw un sy'n gymwys i'w cofrestru	le	A57 Deddf Priodasau 1949	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Y Cofrestrydd Cyffredinol	Crynhoi a chynnal cofnod canolog o ddigwyddiadau cofrestru	Copïau ardystiedig o gofrestriadau genedigaethau (gan gynnwys marw-enedigaethau) a marwolaethau gan gofrestryddion arolygol	le	A27 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Cefnogi gofyniad Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i gynhyrchu gwybodaeth ystadegol	Y Cofrestrydd Cyffredinol i gasglu manylion cyfrinachol y genedigaethau, y marw-enedigaethau a'r marwolaethau	le	A2 Deddf Poblogaeth (Ystadegau) 1938	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Cefnogi gofyniad Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i gynhyrchu gwybodaeth ystadegol	Manylion gwirfoddol y genedigaethau, y marw-enedigaethau a'r marwolaethau	le	Dim darpariaeth (casglwyd yn wirfoddol)	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
	Cefnogi gofyniad Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig i gynhyrchu gwybodaeth ystadegol	Gwybodaeth ychwanegol Tystysgrif Feddygol Achos y Farwolaeth	le	Rheoliad 11 Rheoliadau Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau 1968	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Crynhoi a chynnal cofnod canolog o	Copïau ardystiedig o gofrestriadau priodasau gan gofrestryddion arolygol	le	A58 Deddf Priodasau 1949	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol

	ddigwyddiadau cofrestru				Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Adrodd am drosedd neu amheuaeth o drosedd	Dogfennau wedi'u ffugio	le	Rheoliad 72(1)(b) Rheoliadau Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1987 (genedigaethau a marwolaethau)  Rheoliad 23(1) Rheoliadau Cofrestru Priodasau 2015 (priodasau)  Rheoliad 18 Rheoliadau Partneriaeth Sifil (Darpariaethau Cofrestru) 2005 (partneriaethau sifil)	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Dibenion ymladd troseddau	Ceisiadau amheus am dystysgrifau geni, twyll budd-daliadau, dogfennau twyllodrus, ac ati.	le	Atodlen 6 Deddf Mewnfudo 2014	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol

#### Adrannau Eraill y Llywodraeth

Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau a Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992	Detholion o gofrestriadau marwolaeth trwy gyfrwng y gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith  Trwy ffurflen BD8	Nage  Nage	A125 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992  Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Hysbysiadau Marwolaeth) 2012  Y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu	Nid yw'n berthnasol gan nad yw'n wybodaeth bersonol  Nid yw'n berthnasol gan nad yw'n wybodaeth bersonol
	Cefnogi'r gwasanaeth genedigaethau Dweud Wrthym Unwaith	Gwybodaeth am enedigaethau trwy gofrestriadau a datganiadau	le	A19A Deddf Gwasanaeth Cofrestru 1953	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r swyddogaetha u hynny sy'n ymarferadwy gan y sefydliad mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd	Cofrestrïadau marwolaethau o ganlyniad i frechu (ffurflen 111)	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	Darpariaeth sy'n cael ei hadolygu	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
Y Swyddfa Gartref (Fisâu a Mewnfudo'r DU/Mewnfudo a Gorfodi)	Camau gorfodi'r Swyddfa Gartref ar gyfer Mewnfudo	Gwybodaeth a gedwir gan y swyddog cofrestru mewn perthynas â phriodasau ffug	le	A24 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999  Rheoliadau Adrodd am Briodasau Amheus a Chofrestru Priodasau (Diwygiadau Amrywiol)	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Y Swyddfa Gartref  Camau gorfodi ar gyfer mewnfudo	Gwybodaeth a gedwir gan y swyddog cofrestru  (A24A Partneriaethau Sifil Ffug)	le	A24A Deddf Mewnfudo a Lloches 1999  Rheoliadau Adrodd am Bartneriaethau Sifil Amheus 2005	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
	Camau gorfodi'r Swyddfa Gartref ar gyfer Mewnfudo	Gwybodaeth a gedwir gan y swyddog cofrestru  (pan fydd y swyddog cofrestru yn amau troseddau mewnfudo, e.e. arhoswyr tros amser, unigolion sy'n gweithio'n anghyfreithlon)	le	Atodlen 6 Deddf Mewnfudo 2014	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
	Camau gorfodi'r Swyddfa Gartref ar gyfer Mewnfudo	Gwybodaeth a gedwir gan y swyddog cofrestru, lle daeth cais i law	le	Atodlen 6 o'r Ddeddf Mewnfudo 2014	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
	Camau gorfodi'r Swyddfa Gartref ar gyfer Mewnfudo (Ysgrifennydd Gwladol)	Dylid cyflenwi dogfennau cenedligrwydd, lle bo amheuaeth y gallai unigolyn fod yn atebol i gael ei symud o'r Deyrnas Unedig, a gallai'r ddogfen honno hwyluso'r broses dan sylw.	le	Adran 20A Deddf Mewnfudo a Lloches 1999	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol

<b>Awdurdodau Lleol</b>					
Yr Adran Addysg	Y swyddogaethau hynny y mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol eu cyflawni	Cofrestru genedigaethau a marwolaethau	le	A564(3) Deddf Addysg 1996	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Awdurdodau Bilio'r Dreth Gyngor	Ar gyfer y swyddogaethau hynny a nodir yn rhan 1 o Ddeddf Cyllid y Llywodraeth 1992	Enw a chyfenw, dyddiad marwolaeth a chyfeiriad ar gyfer marwolaethau'r rheiny a oedd dros 18 mlwydd oed	Nage	Paragraff 13 Atodlen 2 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, Rheoliad 5 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992	Nid yw'n berthnasol gan nad yw'n ddata personol
Swyddogion Cofrestru Etholiadol	Cynnal rhestr gywir o'r rheiny sydd â'r hawl i gofrestru ar y gofrestr etholiadol, yn ogystal â chyfeiriadau cymwys	Archwilio'r cofnodion a gedwir (ym mha bynnag ffurf), gydag awdurdodiad i lunio copiâu ohonynt. Byddai hyn yn berthnasol i briodasau a marwolaethau.	le	A53(3) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983  Rheoliad 35 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Y Bwrdd Diogelu Plant Lleol	Swyddogaethau fel y'u nodir yn A1(1) Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008	Cofrestru marwolaethau y rheiny sydd o dan 18 mlwydd oed	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	A31 Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Adran Twyll	Dibenion ymladd troseddau	Troseddau'n ymwneud â budd-dal y dreth gyngor neu'r budd-dal tai	le	Atodlen 6 Deddf Mewnfudo 2014	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
Y Tîm Diogelu	Amddiffyn plant ac oedolion	Amheuaeth o gam-drin oedolyn neu blentyn	le	Atodlen 6 Deddf Mewnfudo 2014	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
<b>Eraill</b>					

Y Crwner	Ymchwiliadau	Marwolaethau sy'n perthyn i'r categorïau a nodir yn rheoliad 41 Rheoliadau Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1987	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Grwpiau Comisiynu Clinigol ac awdurdodau lleol (Lloegr)	Cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau hynny sy'n ymarferadwy gan y sefydliad mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd	Cofrestru genedigaethau (gan gynnwys marw-enedigaethau) a marwolaethau	le	A269(2) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Byrddau Iechyd Lleol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)	Cynorthwyo'r Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd	Cofrestru genedigaethau a marwolaethau	le	A200(2) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Talwyr pensiwn cyhoeddus	Cynorthwyo adrannau'r llywodraeth â'r gwaith o weinyddu pensiynau	Cofrestriadau marwolaethau pensiynwyr y gwasanaeth cyhoeddus (ffurflen 111)	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	Y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol	Tynnu enwau oddi ar y gofrestr	Hysbysiadau o farwolaethau (ffurflen 111) fferyllwyr cofrestredig a thechnegwyr fferyllol cofrestredig	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	Gorchymyn Fferylliaeth 2010	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Cymdeithas y Gyfraith	Tynnu enwau oddi ar y gofrestr	Tystysgrifau marwolaethau cyfreithwyr	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	Y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
Y Cyngor Optegol Cyffredinol	Tynnu enwau oddi ar y gofrestr	Tystysgrifau marwolaethau optegwyr	le, am ei bod yn cynnwys	A10(2) Deddf Optegwyr 1989	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol

			manylion yr hysbysydd		Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Y Swyddog Meddygol Rhanbarthol (Lloegr).  Y Prif Swyddog Meddygol Gweinyddol (Cymru)	Tynnu enwau oddi ar y gofrestr	Tystysgrifau marwolaethau bydwragedd	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	Y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu	6 (e) tasg gyhoeddus  Nid yw'r hawl i ddileu data personol yn berthnasol
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol	Tynnu enwau oddi ar y gofrestr	Cofrestrïadau marwolaethau ymarferwyr meddygol cofrestredig (ffurflen 111)	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	A30(6) Deddf Feddygol 1983	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Tynnu enwau oddi ar y gofrestr	Cofrestrïadau marwolaethau deintyddion (ffurflen 111)	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	A23(1) Deddf Deintyddion 1984	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol
Coleg Brenhinol y Milfeddygon	Tynnu enwau oddi ar y gofrestr	Cofrestrïadau marwolaethau milfeddygon (ffurflen 111)	le, am ei bod yn cynnwys manylion yr hysbysydd	A13(1) Deddf Milfeddygon 1966	6 (c) rhwymedigaeth gyfreithiol  Nid yw'r hawl i wrthwynebu'r gwaith o brosesu data personol neu ddileu data personol yn berthnasol

\*Mae hysbysydd cymwysedig yn unigolyn y caniateir iddo, yn ôl y gyfraith, gofrestru genedigaeth, marwolaeth neu farw-enedigaeth.

---

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

---

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth?

Mae gwybodaeth bersonol a gesglir gennych i gofrestru digwyddiad yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Y brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gwaith o gasglu gwybodaeth gofrestru yw:

- Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953
- Deddf Priodasau 1949
- Deddf Partneriaeth Sifil 2004.

Efallai y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol arnoch, o ganlyniad i'r deddfau hyn a darnau eraill o ddeddfwriaethau, i gyflwyno darnau penodol o wybodaeth.

Gellir hefyd casglu gwybodaeth bersonol gennych os byddwch yn cyflwyno cais i'r swyddfa hon, er enghraifft cais am dystysgrif neu gais i gywiro gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys ar gofrestr.

Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth i'n galluogi i gynnig gwasanaethau cysylltiedig anstatudol, e.e. Seremonïau Enwi ac Ailddatgan, a'r Gwasanaeth Dychwelyd Pasbort Ewropeaidd.

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn cael ei chadw a'i phrosesu gan swyddogion cofrestru'r rhanbarth cofrestru hwn, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, byddwn yn dweud wrthyich pam yr ydym yn ei chasglu, ac at ba ddiben y byddwn yn ei defnyddio, a hynny mewn hysbysiad preifatrwydd ar wahân. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwnnw'n unig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys hawl mynediad i gyrchu'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch, yn ogystal â'r hawl i gwyno os byddwch yn anfodlon â'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a'r modd yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth, dilynwch y ddolen ganlynol: